**EITEM**

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | PWYLLGOR ARDAL DWYFOR |
| **DYDDIAD** | 17 MEDI, 2012 |
| **TEITL** | RHAGLEN WAITH ARFAETHEDIG PRIFFYRDD A BWRDEISTREFOL YN ARDAL DWYFOR |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD** | HYSBYSU'R PWYLLGOR O AMCANION GWAITH ARFAETHEDIG Y SWYDDFA ARDAL YN YSTOD 2012/13 |
| **ARGYMHELLIAD** | DERBYN YR ADRODDIAD ER GWYBODAETH |
| **AWDUR** | PEIRIANNYDD ARDAL DWYFOR |
| **ARWEINYDD PORTFFOLIO** | |

---

## 1.0 CEFNDIR

**1.1** Pwrpas yr adroddiad hwn yw cyflwyno gwybodaeth i'r aelodau o raglenni gwaith dymunol Priffyrdd a Bwrdeistrefol yn Ardal Dwyfor am y flwyddyn.

**1.2** Mae gan y Gwasanaeth Priffyrdd a Bwrdeistrefol dair prif weithgaredd, sef :-

- Cynnal Asedau Priffyrdd:- cynnal safon y rhwydwaith briffyrdd i ddiogelu a chyfarfod gofynion defnyddwyr;
- Cynnal Asedau Bwrdeistrefol:- cynnal eiddo a chyfleusterau megis toiledau cyhoeddus, llecynnau chwarae, meinciau, cysgodfannau a mynwentydd;
- Rheoli Gwastraff:- codi ymwybyddiaeth arwain a hyrwyddo ymdrechion i reoli ac ailgylchu gwastraff.

**1.3** Yr amcan yw darparu a chyflawni'r prif weithgareddau yma yn y modd mwyaf effeithiol er mwyn cyfrannu at gyrraedd nod y Cyngor o "Wella Gwynedd"

## 2.0 RHAGLENNI GWAITH PRIFFYRDD

### Arolwg o Waith Cynnal Ffyrdd

Paratoi'r gwaith cynnal drwy ddau ddull darparu. Yn ymatebol i ddigwyddiadau er enghraifft ymateb i ddiffygion lleol er ei gwneud yn saff ac yn rhaglenedig drwy baratoi rhaglenni o gynlluniau gwaith ymlaen llaw megis ail-wynebu ac arwisgo cerbyd lonydd.

Paratoi'r cynlluniau gwaith rhaglenedig ar sail blaenoriaeth angen drwy drefn archwiliadau ac asesiadau technegol. Mae amgylchiadau a chyflwr y rhwydwaith weithiau yn newid yn ystod y flwyddyn, pan ddigwydd hyn, rhaid yn anochel ailasesu anghenion a newid blaenoriaethau er ymdopi â'r amgylchiadau ee lliniaru effeithiau digwyddiadau annisgwyl megis cyfnod rhew ac eira estynedig a difrod llifogydd eithriadol.

Nid yw yn ganiatäol gorwario ac felly drwy ailasesu blaenoriaethau yn ystod y flwyddyn yn ddibynnol ar amgylchiadau, gwneir y gorau o'r gyllideb ar gael gydag unrhyw waith bwriadedig fydd angen ei ohirio yn cael ystyriaeth bellach i'r dyfodol pan fydd y gyllideb a blaenoriaethau yn caniatáu.

Paratoi'r mân waith ymatebol o ddydd i ddydd yn ôl angen ar sail asesiad risg, a gwaith tymhorol a chylchol megis cynnal tiroedd i drefniadau hanesyddol yn seiliedig ar batrwm tywydd a chyfnod tyfu.

Byddai'n rhy hirfaith cynnwys manylion o bob math a dull o fân waith a cylchol y gobeithir ei gyflawni yn ystod y flwyddyn ac felly er cadw'r adroddiad yn rhesymol o gryno rhoi'r prif raglenni cynlluniau gwaith blaenoriaeth uchel, sydd ar y brig ar hyn o bryd, yn unig yn yr atodiadau .

## 2.1 Cynnal a Chadw Ffyrdd Sirol

Un o brif amcanion y Gwasanaeth yw cynnal a chadw'r rhwydwaith ffyrdd sirol. Yn gryno golyga hyn gynnal adeiladwaith y briffordd a'r ddarpariaeth draenio gysylltiedig, gwagio gwlïau, torri gwair er budd diogelwch, rheoli chwyn, ac ymateb i ddigwyddiadau megis damweiniau, a llifogydd. Paratoi'r gwaith ochri, glanhau ffosydd ac ysgubo ymylon ffyrdd yn ôl angen, ar sail blaenoriaeth, pan fydd adnoddau yn caniatáu. Fe baratoi'r hefyd dros fisoedd y gaeaf wasanaeth gofalgarwch gaeaf er lliniaru cyfnodau risgiau rhew ag eira.

Cyflwynir crynodeb o'r cynlluniau rhaglenedig Ffyrdd Sirol fel a ganlyn:-

- Arosod ac ail-wynebu cerbyd lonydd yn **Atodiad A**.
- Arwisgo yn **Atodiad B.**
- Rhaglen mân weithiau draenio a throedffyrdd yn **Atodiad C.**

Mae yna gyfanswm cyllideb refeniw o £2,223,540 ar gyfer gweithiau ffyrdd sirol yn Ardal Dwyfor yn ystod 2012/13.

## 2.2 Cynnal a Chadw Rhwydwaith Gefnffyrdd

Mae'r Gwasanaeth hefyd yn cynnal a chadw cefnffyrdd i'r Cynulliad Cenedlaethol Cymru drwy drefniant Asiantaeth Gefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru. Dim ond un gefnffordd sydd yna yn Ardal Dwyfor yr A487 sy'n rhedeg o drogylch Minffordd hyd ffordd osgoi Porthmadog ac yn dilyn drwodd at bentrefan Pantglas.

Mae cefndir y gwaith cynnal a chadw fel sgôp gwaith cynnal ffyrdd sirol uchod ond mae yna feini prawf gwasanaeth ac ymateb unigryw i gefnffordd er cydnabod ei statws yn genedlaethol fel prif ffordd o bwysigrwydd strategol.

## 2.3 Cynllun Benthyciad Llywodraeth Cymru

Mae Cyngor Gwynedd ar hyn o bryd yn ymgymryd â buddsoddiad ychwanegol o £4.3 miliwn i wella'r Rhwydwaith Strategol fel rhan o Gynllun Benthyciad Llywodraeth Cymru. Fe ragwelir y bydd buddsoddiad tebyg yn cael ei wneud yn flynyddol i wella rhwydwaith ffyrdd sirol am y ddwy flynedd nesaf sydd yn rhoi swm terfynol o £12 miliwn o gyllid ychwanegol. Dylai preswylwyr a defnyddwyr y ffyrdd yng Ngwynedd fod yn ymwybodol fod y cyllid ychwanegol yn caniatáu rhaglen sylweddol o ail-wynebu ffyrdd a gwelliannau trwy'r sir.

Mae rhestr waith fwriadedig am y flwyddyn gyfredol wedi ei dangos yn **Atodiad CH.**

## 2.4 Gwasanaethau Goleuo

Gweithredir gwaith cynnal systemau goleuadau cyhoeddus ffyrdd sirol a'r gefnffordd A487 yn Ardal Dwyfor yn uniongyrchol o Ddepo'r Gwasanaethau Goleuo yng Nghwm y Glo, Llanberis. Bydd y gwaith ar draws yr ardal yn cynnwys adnewyddu colofnau/lanteri sydd wedi ei nodi ac mae rhan o'r gwaith hyn wedi ei archebu yn barod ond fe all newid yn ystod y flwyddyn. Bydd rhaglen profion strwythurol colofnau yn barod o fewn y chwe wythnos nesaf a byddwn yn archebu'r gwaith. Bydd y gwaith cynnal blynyddol yn mynd ymlaen fel arfer ac yn cynnwys newid lampau, peintio ayyb. **Gweler Atodiad D.**

# 3.0 MAES GWAITH BWRDEISTREFOL

## 3.1 Toiledau Cyhoeddus

Mae'r Cyngor yn parhau i gydweithio gyda sawl Cyngor Tref/Cymuned a mudiadau eraill i redeg toiledau cyhoeddus. Rhagwelir y bydd cyfanswm y gyllideb refeniw eleni yn mynd ar waith cynnal a chadw cyffredinol. Bwriedir paentio a thacluso adeiladau ar ôl tymor yr ymwelwyr oherwydd prysurdeb y safleoedd.

## 3.2 Mynwentydd

Fe ymrwymir y rhan helaeth o'r gyllideb ar waith cynnal arferol megis torri gwellt, chwynnu a thrwsio llwybrau, ffensys, giatiau a nodweddion terfynau eraill. Mae'r rhaglen archwilio cofebion yn mynd yn ei flaen gyda'r gwaith eleni wedi cychwyn ym mis Gorffennaf. Bydd unrhyw rai sy'n cael eu hadnabod yn beryglus yn cael eu diogelu dros dro. Mae tir wedi ei bwrcasu am gynllun i ymestyn Mynwent Criccieth a bydd gwaith yn digwydd i sefydlu terfyn newydd.

### 3.3 Caeau Chwarae

Bydd y gyllideb refeniw ar gyfer gwaith cynnal i'r tiroedd, cyfarpar ac offer a therfynau. Mae cyllideb cyfalaf y Gwasanaeth ar gyfer darparu cyfarpar ac offer chwarae newydd fel y bo'r angen ar sail cyflwr a blaenoriaeth. Bydd safleoedd â chyfarpar chwarae i blant yn dderbyn archwiliad diogelwch rheolaidd ac arolwg manwl pob chwe mis.

### 3.4 Cyffredinol

Parheir gyda'r cylchdeithiau torri gwellt ac mae'r rhaglen lladd chwyn yn ei le i diroedd agored, caeau chwarae, mynwentydd a llwybrau. Mae'r rhaglen yn cynnwys y safleoedd hynny gyda tyfiant Canclwm Siapaneaidd.

## 4.0 GWASANAETHAU STRYD

4.1 Mae ystod gweithgareddau **Gwasanaethau Stryd** yn canolbwyntio ar wella ansawdd yr amgylchedd lleol, yn cynnwys gorfodaeth stryd, codi ymwybyddiaeth drwy ymgyrchoedd addysgu'r cyhoedd, paratoi rhaglenni gwaith gangiau cymunedol, monitro perfformiad glendid strydoedd a hyrwyddo'r fenter trefi taclus.

4.2 Mae'r **Tîm Gorfodaeth Stryd** yn parhau i daclo troseddau amgylcheddol, megis sbwriel, gwastraff, tipio slei bach a baw cŵn. Yn ystod 2011-12 derbyniodd drwg weithredwr yng Ngwynedd 214 dirwy wedi eu cyflwyno yn y fan ar lle, cynnydd o 31 dirwy i'r hyn gyflwynwyd yn y flwyddyn flaenorol. Canolbwyntiwyd yr ymgyrchoedd gorfodaeth benodol ar y problemau baw cŵn ym Mhwllheli, Porthmadog a Chriccieth a monitro'r problemau gwaredu gwastraff anghyfreithlon yn lleoliadau'r banciau ailgylchu yn Nefyn, Pwllheli a Phorthmadog.
Yn ystod y flwyddyn hon bydd y staff yn cefnogi mentrau ychwanegol penodol yn anelu i leihau problemau baw cŵn, sbwriel a thipio slei bach.

4.3 Mae'r **Gangiau Cymunedol** yn parhau i ymgymryd ag amrywiaeth o fân weithiau cynnal ar sail gylchol drwy'r ardal Dwyfor. Cwblhawyd rhaglen "Blitz" llwyddiannus y llynedd (yn Abererch, Llannor, Tudweiliog a Phontllyfni). Mae cronfa trefi taclus wedi ei ddarparu eleni i wneud gwaith ychwanegol (yng Ngarndolbenmaen a Sarn Mellteyrn).

4.4 Menter Trefi Taclus (Blwyddyn 5) - Mae'r Cyngor yn parhau i dderbyn adborth adeiladol iawn a sylw ffafriol yn y wasg leol. Mae'r ymgyrch codi ymwybyddiaeth sydd ar y gweill i leihau problemau baw cŵn yn cael ei baratoi mewn partneriaeth â'r ysgolion lleol. Mae biniau trefi taclus newydd wedi ei gosod ar bromenadau Criccieth, Pwllheli ac Aberdaron. Mae'r biniau newydd yma sydd wedi eu gosod gyda fflap atal ysbeilio gan wylanod môr, yn cyflawni pwrpas deuol gan y gellir ei defnyddio ar gyfer ysbwriel a baw cŵn wedi ei roi mewn bagiau. Mae'r prosiect trefol trefi taclus i ail blannu coed hefyd wedi canolbwyntio ar ardal Dwyfor gyda saith coeden newydd wedi eu plannu ym Mhwllheli.

## 5.0 RHEOLI GWASTRAFF AC AILGYLCHU

5.1 Er cyfarfod targedau ailgylchu, compostio a chyfyngiadau tirlenwi, mae Strategaeth Wastraff y Cyngor yn cynnwys sawl cam, newidiadau, datblygiadau a darpariaeth ailgylchu dros y blynyddoedd nesaf.

5.2 Mae'r Strategaeth Wastraff yn berthnasol i wastraff bwrdeistrefol sef y gwastraff a gesglir o dai; ysbwriel a gesglir o finiau stryd, drwy waith ysgubo stryd a glanhau'r traethau; gwastraff a gesglir o'n canolfannau ailgylchu, parciau a thiroedd agored bwrdeistrefol, gwastraff masnachol lle mae cytundeb gyda'r Cyngor am ei gasglu.

5.3 Mae rheoli'r gwastraff yma yn un o faterion amgylcheddol pwysicaf a mwyaf heriol sy'n wynebu Cymru ac erbyn hyn mae targedau statudol wedi'i gosod sef:-

- Erbyn Mawrth 2013 - rhaid ailgylchu a chompostio isafswm o 52%
- Erbyn Mawrth 2016 - rhaid ailgylchu a chompostio isafswm o 58%
- Erbyn Mawrth 2020 - rhaid ailgylchu a chompostio isafswm o 64%
- Erbyn Mawrth 2025 - rhaid ailgylchu a chompostio isafswm o 70%

Yn ogystal mae cyfyngiad hefyd ar faint o wastraff pydradwy y gellir ei dirlenwi a daw'r lwfans yma lawr fesul blwyddyn.

5.4 Mae'r datblygiadau a threfniadau casglu isod wedi gweithredu hyd yma sydd yn ein rhoi ar darged er cyfarfod targed mis Mawrth 2013.

- Cyflwyno casgliadau bwyd wythnosol drwy'r Sir erbyn hyn. Mae'r bwyd yn cael ei gasglu drwy ddefnydd bin bychan 23ltr sydd â bag pydradwy.
- Yr ydym wedi agor canolfan ailgylchu yn Dolgellau a hefyd Blaenau Ffestiniog
- Yr ydym yn cynnig gwasanaeth ailgylchu a chasgliadau bwyd i fusnesau sydd â chytundeb masnachol gyda'r Cyngor
- Yr ydym yn treialu proses unigryw ar gyfer delio gyda ysgubion ffordd

5.5 Beth nesaf:- gyda thargedau yn codi gellir gweld bod angen cynnydd sylweddol yn yr hyn a gesglir ar gyfer ailgylchu. Byddwn felly dros y flwyddyn nesaf yn gweithredu ar y canlynol :-

- Ymestyn casgliadau ailgylchu (bocs glas) i gynnwys plastigion gwael a hefyd '*tetrapacs'*
- Edrych ar y ddarpariaeth bin gweddilliol - bin gwyrdd gweddilliol presennol safonol yn 240ltr – angen ei adolygu oherwydd gostyngiad yn ei ddefnydd
- Cynyddu lefelau ailgylchu ein canolfannau ailgylchu drwy edrych ar ailgylchu ystod mwy o ddeunyddiau megis carpedi a phlastigion caled
- Sicrhau gwell defnydd o'r gwasanaeth bwyd a bocs glas
- Ymgyrchoedd addysgu, codi ymwybyddiaeth a gorfodaeth
- Addasiadau i'r cylchdeithiau casglu gwastraff
- Ymestyn darpariaeth ailgylchu ar ein strydoedd

5.6 Ymdrin â gwastraff bwyd Prosiect GwyriAD.

Er cadw o fewn ein lwfans tirlenwi gwastraff pydradwy yr ydym wedi cyflwyno gwasanaeth casglu bwyd wythnosol. Mae'r Cyngor bellach wedi cael llwyddiant o gael darpariaeth Anaerobig Dreuliad (AD) i bwrpas compostio'r bwyd. Er ein bod eisoes â gorsaf compostio yn Harlech sydd ar gyfer bwyd a gwastraff gardd nid fyddai hyn wedi bod ddigonol ar gyfer ein hanghenion. Bydd yr orsaf AD newydd yn gallu ymdrin â rhwng 8000t a 10000t o fwyd a dylai'r safle fod yn weithredol erbyn Mehefin 2013.

5.7 Ymdrin â gwastraff gweddilliol (prosiect Trin Gwastraff Rhanbarthol Gogledd Cymru 2016/17 ymlaen).

5.8 Gyda gostyngiad blynyddol yn y lwfans tirlenwi statudol gellir gweld bod y Cyngor yn wynebu risgiau sylweddol pe byddai yn parhau yn ddibynnol ar dirlenwi ar gyfer ymdrin â gwastraff i'r dyfodol ac yn enwedig o 2018 ymlaen. Mae strategaeth newydd y Cynulliad yn rhoddi cyfyngiad ar dirlenwi o 10% o'r cyfanswm gwastraff yn 2020 sy'n lleihau i 5% yn 2025.

5.9 O ganlyniad, mae angen technoleg amgen i ymdrin â'r gwastraff gweddilliol h.y. y gwastraff na ellir ei ailgylchu neu gompostio yn ystod y cyfnod dan sylw.

5.10 Byddai cost a risgiau sylweddol i'r Cyngor mewn pwrcasu a sefydlu cyfleuster ei hunan ar gyfer gwyro ac ymdrin â gwastraff gweddilliol o dirlenwi. Mae Cyngor Gwynedd wedi ymrwymo i sefydlu partneriaeth ar y cyd gyda Siroedd Môn, Conwy, Dinbych a Fflint i bwrpas cael datrysiad ar gyfer gwastraff gweddilliol bwrdeistrefol y rhanbarth.

5.11 Cyngor Sir y Fflint sydd yn arwain ar y prosiect gyda'r Cynulliad yn cynorthwyo gydag ariannu'r gwaith sydd ei angen i ddatblygu prosiect h.y. cyfnod pwrcasu.

5.12 Mae'r gwaith yn mynd yn ei flaen yn dda iawn ac mae ar raglen i gael yn ei le erbyn y flwyddyn 2017.

## 6.0 ARGYMHELLIAD

**6.1** Gofynnir i'r Pwyllgor dderbyn yr adroddiad er gwybodaeth.

**ATODIAD A/APPENDIX A**

| **FFYRDD SYDD ANGEN AILWYNEBU AG AROSOD YN ARDAL DWYFOR 2012/13 / ROADS THAT REQUIRE RESURFACING AND OVERLAYING IN THE DWYFOR AREA 2012/13** | |
|---|---|
| **Dosbarth Ffordd/ Road Class** | **Lleoliad/Location** |
| 3 | Carreg – Methlem, Rhydlios |
| 3 | Methlem – Capel Rhydlios Chapel |
| 3 | Meillionydd Fawr – Rhiw |
| 3 | Berth Aur, Llangwnnadl |
| 3 | Cefn Amlwch, Tudweiliog |
| 3 | Lôn Tŷ Isaf Road, Tudweiliog |
| 3 | Nantrhiwdar – Cwrt, Mynytho |
| 3 | Hendy, Sarn – Rhianfa, Dinas |
| 3 | Cefn Leisiog – Bont Sant Glorian |
| 3 | Lôn Fudur, Dinas |
| 3 | Lôn Ddrain, Nanhoron |
| 3 | Llanengan – Abersoch |
| 3 | Lôn Cytiau, Mynytho |
| 3 | Lôn Pin – Cefn Llanfair |
| 3 | Cefn Llanfair – 30 |
| 3 | Lôn Eglwys Newydd Road, Aberdaron |
| 3 | Lôn Uwchmynydd Road, Aberdaron |
| 3 | Lôn Sarn Bach Road, Abersoch |
| 3 | Gefail Bont, Llannor |
| 3 | Bryn Celyn Isa – Cefn Isa |
| 3 | Llannor – Denio |
| 3 | Llwyndyrys |
| 3 | Lôn Las, Morfa Nefyn |
| 3 | Abererch |
| 3 | Lôn Isaf, Llithfaen |
| 3 | Braich Saint |
| 3 | Ten Mile Walk (rhan/section) |
| 3 | Croeshigol, Trefor |
| 3 | Pant Glas – Pont Ynys Pwtan Bridge |
| 3 | 30 – Cilcoed |
| 3 | Foel Isaf – Cae Du, Llanllyfni |
| 3 | Tai Lleuar – Felin y Cim |
| 3 | 30 – 30 Morfa Bychan |
| 3 | Garej Glanaber – Ffordd yr Eglwys/Church Road, Borthygest |
| 3 | Tai'n Lôn |
| 3 | Lôn Ganol, Clynnog |
| UC | Lôn Ysgol/School Road, Tudweiliog |
| UC | Ffordd y Faenor/Manor Avenue, Pwllheli |
| UC | Mitre Side, Pwllheli |
| UC | Bro Cymerau – West End, Pwllheli |

| | |
|---|---|
| UC | Talcymerau, Pwllheli |
| UC | Troed yr Allt, Pwllheli |
| UC | Ffordd Harbwr, Abersoch |
| UC | Stad Pengwern Estate – Hen Bost, Efailnewydd |
| UC | Tŷ Lôn, Rhydlios |
| UC | Porthychain, Llangwnnadl |
| UC | Trefaes Fawr, Botwnnog |
| UC | Rhos Goch, Llaniestyn |
| UC | Tregarnedd, Dinas |
| UC | Tyddyn Singrig, Bodgadla |
| UC | Fron Heulog, Cilan |
| UC | Bryn Celyn Isaf, Cilan |
| UC | Cyff Nant Pig Jct – Erw, Cilan |
| UC | Tŷ Isaf, Rhydyclafdy |
| UC | Nefyn – Pemprys |
| UC | Plas Pistyll |
| UC | Coed Frochas, Boduan |
| UC | Gwyniasa, Llithfaen |
| UC | Lôn Plas, Llithfaen |
| UC | Mynydd Carnguwch |
| UC | Hafod, Llithfaen |
| UC | Traeth, Abererch |
| UC | Cwm Coryn, Llanaelhaearn |
| UC | Hen Ffordd Bont Fechan |
| UC | Ymwlch – Gell |
| UC | Arfonia Terrace, Criccieth |
| UC | Ty'n Rhos, Criccieth |
| UC | Cae Rhys, Criccieth |
| UC | Rhes Ffynnon/Hollywell Terrace, Criccieth |
| UC | Lôn Geraint Road |
| UC | Lôn Merllyn |
| UC | Min y Traeth/Beach Bank |
| UC | Rhes Mona Terrace |
| UC | Ffordd Penpaled Road |
| UC | Cambrian Terrace |
| UC | Wellington – Tangrisiau |
| UC | Lôn Parc/Queen's Road |
| UC | Lôn Dinas/Stanley Road |
| UC | Rhos Bach |
| UC | Llwyn Brith |
| UC | Y Fron, Nefyn |
| UC | Cae Rhug, Nefyn |
| UC | Cefn Tŵr – Penbryn, Nefyn |
| UC | Rhodfa'r Môr/Marine Terrace, Nefyn |
| UC | Cefn Tŵr, Nefyn |
| UC | Glan Pwll, Nefyn |
| UC | Stad Penrorsedd Estate, Morfa Nefyn |
| UC | Lôn Cefn Morfa (cylch Talafon loop), Morfa Nefyn |

| | |
|---|---|
| UC | Lôn Cytun, Morfa Nefyn |
| UC | Stad Terfyn, Morfa Nefyn |
| UC | Stad Terfynfa, Morfa Nefyn |
| UC | Stad Gerddi, Edern |
| UC | Stad Uwch Afon, Llannor |
| UC | Stad Ger y Bont |
| UC | Lôn Ty'r Gof, Y Ffôr |
| UC | Stad Tre Garn, Pencaenewydd |
| UC | Stad Bro Siôn Wyn, Chwilog |
| UC | Stad Troed y Garn, Llangybi |
| UC | Stad Maes Eifion, Rhoslan |
| UC | Lôn Elim, Llithfaen |
| UC | Stad Awelfryn, Llithfaen |
| UC | Stad Maes Glas, Llanaelhaearn |
| UC | Penrhiw, Capel Uchaf |
| UC | Lôn Hafod Garregog, Nantmor |
| UC | Lôn Tyddyn Mawr |
| UC | Lôn Cwm (rhan/section) |
| UC | Stryd Wesla/Chapel St – Heol Newydd/New St, Porthmadog |
| UC | Stad Pensyflog Estate, Porthmadog |
| UC | Maes Gwydir, Trefor |
| UC | Pen Cei/Cornhill, Porthmadog |
| UC | Ffordd Osmond Lane, Porthmadog |
| UC | Eifl Road, Trefor |
| UC | Cilfan Penamser Layby |
| UC | Cilfan Tyddyn Drain Layby, Trefor |
| UC | Cilfan Hafod y Borth Layby |
| UC | Cefn Stryd Fawr/Back of High Street, Porthmadog |
| UC | Prenteg – Llyn Du, Cwmystradllyn |
| UC | Hafod Ruffydd, Beddgelert |
| UC | Craig Madog, Tremadog |
| UC | Awel y Grug, Porthmadog |
| UC | Hen Lôn Ysgol, Trefor |
| UC | Heol Madog Street, Porthmadog |
| UC | Heol y Wyddfa/Snowdon Street, Porthmadog |
| UC | Cwm Caeth, Nantmor |
| UC | Lôn Carneddi, Nantmor |
| UC | Maes Hyfryd, Garndolbenmaen |
| UC | Lôn Ty'n Llan, Penmorfa |
| UC | Bro Nantcyll, Pant Glas |

**ATODIAD B/APPENDIX B**

| ARWISGO FFYRDD SIROL DWYFOR 2012/13 / SURFACE DRESSING COUNTY ROADS 2012/13 | |
|---|---|
| **Dosbarth Ffordd/ Road Class** | **Lleoliad/Location** |
| A497 | Boduan – Cylchdro Bryncynan Roundabout |
| A497 | Cylchdro Bryncynan Roundabout – Nefyn |
| A497 | Ffordd Osgoi Llanystumdwy By-Pass |
| A499 | Pontllyfni – Coed Hywel |
| A4085 | Rhiwtir, Nantmor |
| B4417 | Garej Tegfan Garage – Congl Cae |
| B4354 | Tŷ Du Uchaf – Bryn Bychan, Pentreuchaf |
| 3 | Cylch Trefor Loop |
| 3 | Morfa Bychan (30mya/mph Ochr Porthmadog Side – Spar) |
| 3 | Morfa Bychan (30mya/mph Ochr Treflys Side – Spar) |
| 3 | Cae Du, Abersoch – 30mya/mph |
| 3 | 30mya/mph Abersoch – Creigir Goch, Llanengan |
| 3 | Mynytho – Coed y Fron |
| 3 | Groesffordd Ceidio Crossroads – Mochras, Nantgledrydd |
| 3 | Cylch Penllech Loop (Groesffordd Llangwnnadl Crossroads – Cyffordd Plas ym Mhenllech Junction) |
| 3 | Cyffordd B4417 Junction – Tyddyn Mawr, Tudweiliog |
| 3 | Cylchdro Afonwen Roundabout – Chwilog |
| 3 | Felin Plas Du – Groesffordd Tŷ Newydd Crossroads |
| 3 | Pont y Felin – Pencaenewydd |
| 3 | Lôn Tai Forgan Road, Llannor |
| 3 | Lôn Las, Morfa Nefyn |
| 3 | Lôn Mynydd, Llanbedrog |
| 3 | Lôn Chwarel, Llanbedrog |
| 3 | Lôn Tir Topyn, Rhydlios |
| 3 | Cil yr Adwy, Rhydlios |
| 3 | Lôn Ysgol, Tudweiliog |
| 3 | Lôn Wellington, Mynytho |
| 3 | Lôn Garreg, Mynytho |
| 3 | Lôn Tir Dafydd, Bryncroes |
| 3 | Lôn Cae Glas, Edern |
| 3 | Lôn Groes, Morfa Nefyn |
| 3 | Lôn Bodlondeb, Morfa Nefyn |
| 3 | Cylch Morfa Nefyn Loop |
| 3 | Tan y Bryn, Morfa Nefyn |
| 3 | Tŷ Du – Groesffordd Pentreuchaf Crossroads |
| 3 | Cefn y Gader, Morfa Bychan |
| 3 | Nantmor – Bwlchgwernog |
| 3 | Lôn Tyddyn Mawr, Llanaelhaearn |

**ATODIAD C/APPENDIX C**

| RHAGLEN MÂN WEITHIAU FFYRDD SIROL 2012/13 / COUNTY ROAD MINOR WORKS PROGRAMME 2012/13 | | |
|---|---|---|
| **Dosbarth Ffordd /Road Class** | **Lleoliad/Location** | **Math o Waith / Type of Work** |
| A499 | Garej Dolwar Garage, Y Ffôr | Draeniad/Drainage |
| A498 | Glan y Llyn, Nantgwynant | Draeniad/Drainage |
| A497 | Maes Rhyg, Nefyn | Draeniad/Drainage |
| A497 | Yr Odyn, Abererch | Draeniad/Drainage |
| A497 | Cross Keys, Pentrefelin | Draeniad/Drainage |
| B4354 | Tan y Coed, Rhosfawr | Draeniad/Drainage |
| B4354 | Mona Tractors, Chwilog | Draeniad/Drainage |
| 3 | Tyddyn Felin, Llecheiddior | Draeniad/Drainage |
| 3 | Berth Aur, Llangwnnadl | Draeniad/Drainage |
| U/C | Cwm Pennant | Draeniad/Drainage |
| U/C | Gladstone House, Aberdaron | Draeniad/Drainage |
| U/C | Llys Olwen, Ty’n Pwll, Morfa Nefyn | Draeniad/Drainage |
| U/C | Tan Bryn, Sarn Bach | Draeniad/Drainage |
| U/C | Barn Cottage, Pentrefelin | Draeniad/Drainage |
| U/C | Pen Ystymllyn, Pentreflin | Draeniad/Drainage |
| U/C | Ty’r Lôn, Cilan | Draeniad/Drainage |
| U/C | Trefaes Bach, Botwnnog | Draeniad/Drainage |
| U/C | Stad Bryn Mair Estate, Bryncroes | Draeniad/Drainage |
| U/C | Methlem, Rhydlios | Draeniad/Drainage |
| U/C | Gorsaf Dân/Fire Station, Pwllheli | Draeniad a Cerbio/Drainage and Kerbing |
| A487 | Cilfan/Lay by Penmorfa | Cerbio/Kerbing |
| A499 | Penlon Caernarfon Road, Pwllheli | Cerbio/Kerbing |
| A4085 | Warws, Beddgelert | Gwaith Cerbio a Troedffordd /Kerb Repair and Footway |
| B4413 | Nanhoron | Cerbio/Kerbing |
| U/C | Lôn Nant, Llithfaen | Cerbio/Kerbing |
| U/C | Oerfa, Llangwnnadl | Cerbio/Kerbing |
| U/C | Treddafydd, Lon Nant, Llithfaen | New Kerbs/Cerbiau Newydd |
| U/C | Gwesty’r Lion Hotel, Criccieth | New Kerbs/Cerbiau Newydd |
| 2 | Caernarfon Road, Criccieth | Troedffordd/Footway |
| 3 | Cyffordd yr Ysgol – Hen Swyddfa Bost/School Jct – Old Post Office, Garndolbenmaen | Troedffordd/Footway |
| U/C | Capel Horeb – Cae’r Ffynnon, Garndolbenmaen | Troedffordd/Footway |
| U/C | Dolwar, Y Ffôr | Troedffordd/Footway |
| U/C | Ffordd Mela, Pwllheli | Troedffordd/Footway |
| U/C | Ffordd Caerdydd/Cardiff Road, Pwllheli | Troedffordd/Footway |
| U/C | Gorseddfa, Criccieth | Troedffordd/Footway |
| U/C | Tan y Gaer, Abersoch | Troedffordd/Footway |

**ATODIAD CH/APPENDIX CH**

| RHAGLEN AILWYNEBU BWRIADEDIG - CYNLLUN BENTHYCIAD LLYWODRAETH CYMRU, ARDAL DWYFOR 2012/13 / PROPOSED RESURFACING PROGRAMME – WELSH GOVERNMENT LOCAL BORROWING INITIATIVE, DWYFOR AREA 2012/13 | |
|---|---|
| **Dosbarth Ffordd/ Road Class** | **Lleoliad/Location** |
| A497* | Y Maes, Pwllheli |
| A497* | Y Traeth a Lôn Dywod/New Street and Sand Street, Pwllheli |
| A497* | Ffordd Abererch, Pwllheli |
| A497* | Yr Odyn, Abererch |
| A497 | Cae Llo Brith – Lodge Ynysgain, Llanystumdwy |
| A497 | 40mya/mph Criccieth – 40mya/mph Pentrefelin |
| A497 | Ffordd Penamser, Porthmadog |
| A497 | Pentref Efailnewydd |
| A499 | Ffordd Caernarfon, Pwllheli |
| A499 | Llanaelhaearn (fel rhan o'r cynllun gwelliant/part of improvement scheme) |
| A499* | Glynllifon, Llanbedrog (fel rhan o gynllun gwelliant bwriadedig/part of proposed improvement scheme) |
| A498 | Tro Portreuddyn – 30mya/mph Prenteg |
| A498 | Pont Aberglaslyn – Pont Bryn y Felin |
| A498 | Pont Bryn y Felin – 30mya/mph Beddgelert |
| B4415 | 30mya/mph – cyffordd A497 Junction Efailnewydd |
| B4417 | Stryd Dewi Sant, Nefyn |
| B4417 | Pengroeslon – Garej Tegfan Garage |
| B4413 | Rhoshirwaun – Fferm Tocia |
| B4413 | Sarn Mellteyrn – Botwnnog |
| B4413 | Cyffordd A499 Junction – Fferyllfa/Chemist, Llanbedrog |

***** *(dibynnol ar gronfa/subject to funds)*

**ATODIAD D/APPENDIX D**

| RHAGLEN WAITH GOLEUO DWYFOR 2012/13 – LIGHTING PROGRAMME DWYFOR AREA 2012/13 | |
|---|---|
| **LLEOLIAD/LOCATION** | **NATUR Y GWAITH/NATURE OF WORKS** |
| Porthmadog | Dad-dryncio'r A487/Detrunking of A487 |
| A487 Glandwyfach | Adnewyddu Lamp/Renew Lantern |
| Abersoch | Adnewyddu Lamp/Renew Lantern |
| Morfa Garreg, Pwllheli | Adnewyddu Lamp/Renew Lantern |
| Cei'r Gogledd/North Quay, Pwllheli | Adnewyddu Lamp/Renew Lantern |
| Borth y Gest | Adnewyddu Colofn/Renew Column |
| Lon Ceredigion, Pwllheli | Adnewyddu Colofn/Renew Column |
| Gwaen Ganol, Criccieth | Adnewyddu Colofn/Renew Column |
| Lon Elim, Llithfaen | Adnewyddu Colofn/Renew Column |
| Criccieth | Adnewyddu Colofn/Renew Column |
| Trefor | Adnewyddu Colofn/Renew Column |
| Gorsaf Bws Pwllheli Bus Station | Adnewyddu Unedau/Renew Units |
| Ty'n Rhos, Chwilog | Adnewyddu Unedau/Renew Units |
| Pwllheli, Criccieth, Porthmadog | Peintio/Painting |
| Amrywiol gan gynnwys/Various to include: Borthygest, Criccieth, Llanaelhaearn, Porthmadog, Pwllheli, Abersoch | Profi Fframwaith/Structural Testing |
| Ardal Dwyfor Area | Adnewyddu Lampau Arwyddion a Bolardau/Renew Sign Lanterns and Bollard Replacements |